# Cyfarfod Fforwm Gwirfoddolwyr: Cofnodion

## Dydd Mercher 22 Tachwedd, 1-3pm, Haverhub

**Yn bresennol:** Gordon Lewis, Helen Clarke, Jon King, Granville Watson, Roy Partington, Tetiana Bondarenko (part), Granville Watson, Ellie Sherwin, Rebecca Evans (RE), Sally Boyton (SB)

**Ymddiheuriadau:** Jan Millward, Dave Fisher, Madeleine Bland, Hywel Mansell

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

2. Dilyn i fyny o'r cyfarfod blaenorol.
   Rhoddodd Rebecca y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion o'r cyfarfod blaenorol:

| Diweddariad | Gweithredu |
|---|---|
| Mae **siart sefydliadol** i amlinellu rolau staff yn dal ar waith | Siart i'w ddosbarthu pan fydd ar gael. |
| **Monitro llwybrau troed**<br>Mae cyfleuster i gofnodi a dosbarthu materion monitro llwybrau troed ar lwybrau cerdded yn dal i gael ei ddatrys. Ar hyn o bryd, adroddir ar ganfyddiadau newydd i Ant Richards (Pennaeth Mynediad). Awgrymodd Roy a Jon y gallai'r tîm Llwybrau o bosibl fynd i'r afael â materion cynnal a chadw ad hoc ar sail 'ar alwad' os yw'r tîm warden yn barod i gydweithio. Byddai hyn hefyd yn helpu i lenwi'r bylchau pan nad yw sesiynau Llwybrau yn rhedeg oherwydd gwyliau blynyddol. | RE i archwilio posibiliadau gyda'r tîm warden. |
| **Gwirfoddoli annibynnol**<br>Mae Rebecca wedi edrych ar gyfleoedd i ymgymryd â thasgau gwirfoddoli mwy annibynnol. Bydd cyfle i gefnogi gyda'r gwaith tynnu jac y neidiwr ar y prosiect INNS estynedig, ac o bosibl bydd opsiwn ar gyfer mwy o fonitro bywyd gwyllt i gefnogi'r prosiect 'Cysylltu'r Arfordir' y tymor nesaf. bydd gofyn am wybodaeth fanylach am ecoleg i gymryd rhan yn y prosiect hwnnw. | RE/SB i ddiweddaru gwirfoddolwyr pan fydd cyfleoedd yn codi. |
| Bydd **dillad gwaith** y cael eu darparu gan Tees R Us yn y dyfodol. Mae cost crysau llewys hir ychydig bach yn ddrytach na chrysau llewys byr. Mae'n | RE i egluro'r sefyllfa o ran argaeledd crysau llewys hir unwaith y bydd y |

| | |
|---|---|
| debygol y bydd gwirfoddolwyr yn cael y dewis o'r tymor nesaf ymlaen. Yn ystod y misoedd poethach, darparwyd hetiau haul i'r rhai a oedd wedi gofyn amdanynt. | cyflenwr newydd yn rhan o'r cynllun. |
| **Hyfforddiant**<br>Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Awtistiaeth gyda Karen Chandler (Prif Swyddog Gweithredol Pobl Sir Benfro yn Gyntaf gynt) wedi cael ei drefnu ar gyfer ddydd Gwener 1 Rhagfyr yn Llanion mewn ymateb i geisiadau gan aelodau.<br>Mae lleoedd ar gael o hyd. | RE i archwilio opsiynau ar gyfer ailadrodd y sesiwn neu ddull arall o hyfforddi ar gyfer Gwanwyn 2024 (i ddarparu ar gyfer y rheini nad ydynt yn gallu bod yn bresennol ym mis Rhagfyr) |
| Dosbarthwyd adnoddau o'r cwrs hyfforddiant adnabod coed ym mis Gorffennaf yn unol â'r cais. | Hyfforddiant uwch mewn adnabod coed i'w archwilio. |
| **Lleoliad dan do** ar gyfer gweithgareddau tywydd gwlyb – trafodwyd hyn ar raddfa ehangach gan y pwyllgor rheoli Eiddo ac Asedau. Mae bythynnod Sain Ffraid yn anaddas i fyw ynddynt ar hyn o bryd. Mae pencadlys Llwynhelyg yn cael ei glirio ar hyn o bryd ac mae ganddo'r potensial i gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau Llwybrau. | Lleoliad ar gyfer gweithgareddau dan do i'w gadarnhau. |
| **Cynhelir dathliad ar gyfer Gweithgareddau a Digwyddiadau** yn 2023 ar 4 Rhagfyr yn Llanion. Bydd gwirfoddolwyr yn cael cyfle i gwrdd â Sarah, gweithiwr newydd, ac i roi adborth ar sut mae tymor 2023 wedi cael ei gynnal. | RE i anfon gwahoddiad at aelodau nad ydynt wedi derbyn y manylion. |
| 4G a map lleoliad manwl | Ar hyn o bryd nid oes map o'r parc na Maes Tanio Castellmartin sy'n nodi lleoliadau fanwl gywir gyda signal symudol a heb signal symudol. |
| **Cŵn ar deithiau cerdded cyhoeddus** – mae'r polisi a ffefrir ar gyfer derbyn cŵn yn cael ei drafod. Mae digwyddiadau 'addas i gŵn' yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ac yn galluogi arweinwyr digwyddiadau i benderfynu ar y rheolau ar gyfer eu digwyddiadau penodol. | Bydd rhaid i bob digwyddiad unigol egluro'r rheolau cŵn yn glir o fewn disgrifiad y digwyddiad nes y gwneir penderfyniad.<br><br>Bydd nodyn atgoffa am y Cod Cefn Gwlad yn cael ei ddosbarthu yn niweddariad gwirfoddoli gwanwyn 2024. |

3. Materion a diweddariadau gan wirfoddolwyr

| **Mater / diweddariad** | **Gweithredu** |
|---|---|
| **Dathlu gwirfoddolwyr** – Rhannodd Roy a Jon fod cyfranogwyr Llwybrau a ddaeth i'r dathliad gwirfoddoli yn teimlo'n siomedig gyda'r gweithgareddau bach sydd ar gael yn Sain Ffraid. Er bod nifer o weithgareddau wedi'u hamlinellu ar y byrddau ar y diwrnod, byddai wedi bod yn well ganddynt gael rhywbeth mwy strwythuredig gydag amserlen o weithgareddau hwyliog dan arweiniad a fyddai'n eu difyrru fel grŵp. Roeddent yn teimlo bod yr amser dechrau o 1pm yn rhy hwyr gan fod yn rhaid iddynt adael am 3pm. Mae Sain Ffraid hefyd yn bell o Hwlffordd ac awgrymwyd Caeriw fel lleoliad amgen ar gyfer 2024.<br><br>Cafodd y byrddau lluniau, y digwyddiadau gwasgu afalau a'r sesiynau adnabod coed eu mwynhau, gan gynnwys y gacen.<br><br>Cytunodd pawb y byddai'n well i bawb gael amserlen fwy strwythuredig a allai gynnwys gweithgareddau fel taith o amgylch y castell, taith gerdded o amgylch y tir a'r ardd berlysiau, adnabod ffyngau, crefftau ac ati.<br><br>Esboniodd Rebecca a Sal fod Caeriw yn cael ei ystyried fel syniad i ddechrau, ond nid oedd Caeriw yn cefnogi'r angen i ddiddanu pobl gyda'r nos (ac arddangoswyd y gwaith y mae gwirfoddolwyr Caeriw wedi'i gwblhau). Hefyd, nid oedd tîm gwirfoddolwyr Caeriw yn teimlo'n gyfforddus yn cael ei 'arddangos', felly penderfynwyd yn ddiweddarach mai Sain Ffraid oedd y lleoliad mwyaf addas.<br><br>Gwnaethant ddiolch i aelodau'r grŵp Llwybrau a'r fforwm am yr adborth adeiladol ac egluro ei bod yn anodd darparu 'un ateb i bawb' i fodloni gwirfoddolwyr yn gyffredinol mewn un diwrnod.<br><br>Hefyd, rhannodd Sal a Rebecca adborth gan amrywiol wirfoddolwyr a hoffai weld dathliad mwy ffurfiol gyda chyflwyniadau/diweddariadau gan grwpiau gwirfoddoli penodol am y gweithgareddau a gwblhawyd. Trafodwyd a ellid cynnal hyn ar yr un diwrnod â gweithgareddau hwyliog neu fel digwyddiad ar wahân. | Y tîm gwirfoddoli i gynllunio gweithgareddau cyn digwyddiad dathlu 2024, gan ystyried yr adborth a gafwyd a gweithio ar y cyd â rheolwyr gwirfoddolwyr.<br><br>Roedd yr adborth gan aelodau a oedd yn bresennol am fwynhau cyflwyniadau mwy ffurfiol yn amhendant, ac eto cytunwyd y dylid ystyried hyn ar gyfer 2024. |

| | |
|---|---|
| **Prosiect Llwybrau** – Rhannodd Jon fanylion am weithgareddau diweddar. Mae'r cyfranogwyr yn parhau i fwynhau'r sesiynau (er gwaethaf rhai o'r amodau gwlyb a mwdlyd diweddar) ac maent yn awyddus i fod yn rhan o gynifer o gyfleoedd ag y gallant. | |
| **Wardeiniaid y Gogledd** – Rhannodd Granville grynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd yn y Gogledd. Mae Andrew wedi symud i brosiect Walkability gyda Jon yn cymryd ei le. Mae'r cyfranogwyr yn brysur ac yn mwynhau'r gweithgareddau. | |
| **Castell Caeriw** – Rhannodd Helen grynodeb o'r gwaith a wnaed yn y castell, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am Gadeirydd Cyfeillion y Parc Cenedlaethol yn cerdded Llwybr Arfordir Sir Benfro gydag aelodau. Awgrymodd Rebecca fod llwyddiant grŵp gwirfoddolwyr Caeriw yn enghraifft dda i'w rhannu â Chastell Henllys i gefnogi datblygiad yn yr ardal hon yn y dyfodol. | |
| **Gweithgareddau a Digwyddiadau/Walkability**<br>Rhannodd Gordon grynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd. Mae presenoldeb Walkability yn mynd rhagddo'n dda iawn ac mae niferoedd y cyfranogwyr bellach yn fwy cyfartal o ran rhyw. Cafodd cwpl o deithiau cerdded eu canslo oherwydd niferoedd isel ac efallai oherwydd yr amseru. Pwysleisiodd Gordon bwysigrwydd parhaus anfon negeseuon e-bost i'r rheini sydd wedi archebu lle ar daith gerdded, er mwyn sicrhau y byddant yn bresennol (ac osgoi lleoedd gwag y gallai pobl eraill fod wedi'u llenwi).<br>Dywedodd Gordon wrth y grŵp am aelod o'r cyhoedd yn ail-leoli carreg wedi cwympo ar heneb gofrestredig, a sbardunodd ymateb gan Tomos Jones a Heddlu Dyfed i sicrhau bod dull atgyweirio priodol yn dilyn. | |
| Roedd Ellie'n falch o ddweud bod teithiau lles Solfach wedi ailddechrau diolch i atgyfeiriadau gan feddygfa Tyddewi. Mae'r gwaith yn ymwneud â gwenyn/gloÿnnod byw bellach wedi dod i ben ar gyfer y tymor a bydd Ellie yn ymwneud â monitro treftadaeth dros gyfnod y gaeaf. Holodd Ellie hefyd am weithgarwch dilynol mewn perthynas â'r Blychau Barddoniaeth/ Geiriau Diflanedig a sut roedd hyn yn mynd i gael ei recordio/arddangos ar-lein. | RE i wirio'r gweithgaredd Geiriau Diflanedig arfaethedig gyda'r tîm Cyfathrebu. |

4. **Diweddariadau gan APCAP**

**Cyflwyniadau'r Parc**

Dywedodd Rebecca fod cyflwyniad wedi cael ei roi'n ddiweddar i staff APCAP gydag un arall wedi'i drefnu i Bwyllgor APCAP ar 6/12/23. Mae Maisie wedi bod yn casglu geirdaon gan gyfranogwyr Llwybrau i'w rhannu fel rhan o'r diweddariad hwn.

**Cyllid**

Mae nifer o geisiadau am gyllid ar y gweill i gefnogi gweithgareddau gwirfoddoli, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer rhagor o weithgareddau Llwybrau/Cadwraeth. Mae cyllid drwy'r cynllun 'Ailwefru mewn Natur' ar gyfer e-bws mini newydd gyda mynediad i gadeiriau olwyn wedi bod yn llwyddiannus. Bydd yn cael ei ddefnyddio ar draws y Parc a bydd o fis Mawrth 2024 ymlaen.

**Effaith Well**

Mae 160 o wirfoddolwyr bellach wedi cofrestru ar y system newydd gyda Sal a Rebecca yn gwneud cynnydd graddol i helpu'r gwirfoddolwyr sy'n weddill i ymuno. Nid yw'r broses o gofnodi oriau gwirfoddolwyr yn un ffurfiol hyd yn hyn – pan fydd yn barod, bydd Rebecca yn gweithio gyda rheolwyr llinell i gategoreiddio'r gweithgareddau gwirfoddoli'n briodol a chyflwyno'r weithdrefn newydd i wirfoddolwyr (bydd hyn hefyd yn cynnwys amser i wirio ac ymateb i rai o'r manylion mân a nodwyd gan Jon wrth brofi galluoedd y meddalwedd).

**Diwrnod Gwirfoddoli 'Pob Parc'**

Mae Swyddogion Gwirfoddol o'r 15 Parc Cenedlaethol yn cynllunio diwrnod gwirfoddoli 'Pob Parc' i dynnu sylw at amrywiaeth y gwaith gwirfoddol a'i ddathlu ar sail genedlaethol. Gofynnwyd i aelodau'r Fforwm ystyried gweithgareddau penodol y gellid eu harddangos (gyda gweithgarwch enghreifftiol ar gyfer darpar wirfoddolwyr newydd i gymryd rhan ynddynt) fel rhan o ddiwrnod Arfordir Penfro. Mae cynnal digwyddiadau yn ystod yr Wythnos Gwirfoddolwyr (dechrau Mehefin 2024) yn cael ei ystyried (neu bydd dyddiad arall yn cael ei gadarnhau).

**Hyfforddiant i Wirfoddolwyr**

Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth yn cael ei ddarparu ar 1/12/23.
Mae hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol a darpariaeth codi a chario yn cael eu hystyried ar gyfer 2024.

**Sgyrsiau gan Wirfoddolwyr**

Mae rhai gwirfoddolwyr wedi dangos diddordeb yn y potensial i gyd-wirfoddolwyr fynd ati'n rhagweithiol i rannu gwybodaeth a sgiliau drwy sgyrsiau. Mae hon yn

ffordd braf o annog rhyngweithio cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yn ystod misoedd oerach. Bydd y tîm gwirfoddoli yn trefnu digwyddiad treialu ac yn dosbarthu gwahoddiadau yn unol â hynny.

## 5. Unrhyw fater arall

Fe wnaeth Gordon holi am olynydd Medi yn y tîm Cyfathrebu. Mae'r broses recriwtio ar y gweill ar gyfer y rôl hon.

Nid oedd Jon yn gallu dod i'r Diwrnod Archaeoleg diweddar a gofynnodd sut i gael gafael ar wybodaeth am ganfyddiadau'r safle. Mae'r cyflwyniadau o'r diwrnod wedi cael eu recordio a bydd dolenni i wylio'r rhain yn cael eu dosbarthu drwy Newyddion i Wirfoddolwyr pan fyddant ar gael.

Cynigiodd Ellie y dylid cynnal digwyddiad yn Oriel y Parc yn y dyfodol i gysylltu â'r Arddangosfa Geiriau Diflanedig. I'w ystyried wrth gynllunio yn y dyfodol.